PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD MERCHER, 15 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Hinchey (Chairperson)<br>Cynghorwyr Graham Thomas a/ac Woodman |
| Hefyd yn bresennol: | Christine Salter, Gary Watkins a/ac Gareth Henson |

## 25 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Elsmore ac Evans.

Roedd y Cynghorydd G Thomas yn Cadeirio.

## 26 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 27 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2017 yn gofnod cywir ar ôl cynnwys presenoldeb y Cynghorydd Judith Woodman. Llofnododd y Cadeirydd y cofnodion.

## 28 : CRONFA FUDDSODDI CYMRU - DIWEDDARIAD

Cafodd yr aelodau wybod bod yr adroddiad hwn wedi'i baratoi i roi diweddariad ar gynnydd datblygiad Cronfa Fuddsoddi Cymru i reoli asedau buddsoddi'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru ar y cyd.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar ddatblygiad Cronfa Fuddsoddi Cymru yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror. Ystyriodd y Pwyllgor y Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) drafft, oedd yn nodi'r pwerau a fyddai'n cael eu dirprwyo i Bwyllgor Llywodraethu ar y Cyd y Gronfa.

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 23 Chwefror 2017, cymeradwyodd Cyngor Dinas Caerdydd y gwaith o sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd gan ddirprwyo'r awdurdod i gymeradwyo a llofnodi'r IAA terfynol i Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor hwn a'r Swyddog Monitro.

Mae gofyn i'r saith awdurdod gweinyddu CPLlL eraill gymeradwyo sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd yn ystod cyfarfodydd Cyngor Llawn rhwng 23 Chwefror a 15 Mawrth.

Nes bydd yr IAA wedi cael ei lofnodi'n ffurfiol gan yr wyth awdurdod, bydd y Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd yn dal i gwrdd i oruchwylio'r project. Cafodd cyfarfod nesaf y Grŵp ei drefnu ar gyfer 20 Mawrth yng Nghaerdydd.

Cyflwynwyd rhybudd ar gyfer caffael Gweithredwr y Gronfa ar 2 Mawrth. Roedd angen yr ymatebion i'r Holiaduron Dewis erbyn 14 Ebrill, a byddai ymgeiswyr cymwys yn cael cyfle i gyflwyno tendr am y gwasanaethau contract. Byddai'r broses gaffael yn parhau yn ystod mis Mai a Mehefin nes bod modd rhoi argymhelliad i'r Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd o ran dyfarnu'r contract.

Rhoddwyd gwybod i aelodau bod yr amserlenni targed yn dal i gael eu bodloni, ac y gobeithir y byddant yn dal i gydymffurfio ag amserlenni Gweinidogion i symud rhai asedau i'r Gronfa.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Gofynnodd yr aelodau a oedd Cyngor Sir y Fflint wedi'i gadarnhau i arwain ar yr ymarfer caffael a chawsant wybod eu bod wedi, roedd yn rhaid i'r ymarfer caffael gael ei gyflwyno gan un Awdurdod.

Nododd yr Aelodau y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd ym mis Gorffennaf yn ystyried adroddiad ac yn dod i gasgliad ar y gweithredwr a argymhellir ei benodi, yna byddai hyn yn cael ei drafod â'r awdurdodau cyfansoddol ym mis Hydref; ar ôl hynny, byddai modd pennu'r Telerau ac Amodau.

Nododd yr Aelodau na fyddai'r gwaith o drosglwyddo asedau'n dod i ben yn llawn tan tua 10/15 mlynedd.

PENDERFYNWYD: Nodi'r cynnydd ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu Cronfa Fuddsoddi Cymru.

29 : DATGANIAD STRATEGAETH FUDDSODDI

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiynau'n cynnwys adolygu a chymeradwyo Datganiad Strategaeth Fuddsoddi'r Gronfa.

Daeth y Rheoliadau CPLlL (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ('Y Rheoliadau Buddsoddi') i rym ar 1 Tachwedd 2016. Yn ôl y Rheoliadau Buddsoddi mae gofyn i bob awdurdod gweinyddu CPLlL greu a chyhoeddi strategaeth fuddsoddi erbyn 1 Ebrill 2017.

Mae'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (ISS) yn disodli'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi ac mae'n rhaid cydymffurfio â chanllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a'r rhannau perthnasol o Reoliadau Buddsoddi 2009 yn dal ar waith nes bydd yr ISS yn cael ei gyhoeddi.

Cyflwynwyd ISS drafft i'r Panel Ymgynghori Buddsoddi yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror 2017. Mae ymgynghorwyr annibynnol y Gronfa wedi argymell newidiadau sydd wedi'u hymgorffori i'r fersiwn terfynol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Cafodd yr aelodau wybod bod rhaid i'r ISS gynnwys yr hyn a ganlyn:

a. gofyn i fuddsoddi arian y gronfa mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau;

b. asesiad yr Awdurdod o addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau;
c. dull yr Awdurdod o ran risg, gan gynnwys y ffyrdd y bydd risgiau'n cael eu hasesu a'u rheoli;
d. dull yr Awdurdod o ran cyfuno buddsoddiadau, gan ddefnyddio cerbydau buddsoddi ar y cyd a gwasanaethau a rennir;
e. polisi'r Awdurdod ar sut bydd ystyriaethau llywodraethu cymdeithasol, amgylcheddol a chorfforaethol yn cael eu hystyried wrth ddethol, peidio â dethol, cadw a gwireddu buddsoddiadau; a
f. polisi'r Awdurdod ar ymarfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sy'n ymwneud â buddsoddiadau.

Gwnaeth y swyddogion drafod pob is-adran o'r ISS, yn benodol;

- Buddsoddi arian mewn ystod eang o fuddsoddiadau – Cafodd aelodau wybod am y targedau Dyrannu Asedau a chytunwyd ar derfynau amrywiol ar gyfer 2017-18.
- Addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau – Nododd aelodau sut roedd y targedau'n cael eu gosod ar gyfer rheolwyr cronfeydd penodol a bod rheolwyr cronfeydd yn cael eu dewis er mwyn bwrw'r targedau hynny.
- Risg – Nododd Aelodau bod hyn yn benodol yn ymwneud â Buddsoddiadau Risg a sut roedd hyn yn cael ei reoli os nad yw pob targed yn cael ei fwrw. Nododd swyddogion bod mwy o fanylion wedi'u hychwanegu i'r adran hon ers y drafft cyntaf megis tracio gwallau. Trafodwyd Hylifedd a Risgiau Gweithredol gydag Aelodau; nododd Aelodau bod rheolwyr trosglwyddo arbenigol yn cael eu penodi pan fo arian yn symud.
- Cyfuno Buddsoddiadau – Cafodd yr aelodau wybod bod hyn yn is-adran newydd yn cynnig crynodeb o sut fyddai Cronfa Cymru'n gweithredu. Pennwyd y strwythur arfaethedig a'r sail y byddai'r Gronfa'n gweithredu arni ym mis Gorffennaf 2016, yn ystod y cyflwyniad i'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol. Cymeradwywyd y cynigion gan Weinidog Llywodraeth Leol ym mis Tachwedd 2016.

  Cafodd yr aelodau wybod am fwriad y Cyngor i fuddsoddi asedau'r Gronfa drwy'r Gronfa pan a phryd bydd datrysiadau buddsoddi'r Gronfa ar gael. Byddai'r meini prawf allweddol ar gyfer asesu datrysiadau'r Gronfa fel a ganlyn:

  - Bod y Gronfa'n galluogi mynediad at ddatrysiad priodol sy'n bodloni'r amcanion a'r meini prawf meincnodi a osodwyd gan y Gronfa
  - Bod manteision ariannol clir i'r Gronfa drwy fuddsoddi i'r datrysiad a gynigiwyd

  Cafodd yr aelodau wybod bod caffael ar y cyd buddsoddiadau goddefol yn golygu bod y rhain bellach yn fuddsoddiadau ar y cyd, a na fyddai buddsoddiadau ecwiti preifat yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa.

- Strwythur a Llywodraethu Cronfa Fuddsoddi Cymru – Nododd yr Aelodau y byddai'r wyth awdurdod gweinyddu yn dal i reoli'r gwaith o osod eu strategaeth fuddsoddi a dyrannu asedau.

- Cafodd yr aelodau wybod sut byddai ystyriaethau llywodraethu cymdeithasol, amgylcheddol a chorfforaethol yn cael eu hystyried;

- Nododd yr Aelodau'r ymarfer hawliau'n ymwneud â buddsoddiadau (gan gynnwys hawliau pleidleisio).

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd yr Aelodau pa mor aml y byddai'r ISS yn cael ei adolygu a chawsant wybod y byddai hyn yn digwydd bob blwyddyn oni bai bod rheswm i newid adran benodol o'r ddogfen.

- Gofynnodd yr aelodau am eglurder ar b'un ai a fyddai targedau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Cawsant wybod y byddai hyn yn digwydd.

- Nododd yr Aelodau nad oedd buddsoddiadau ecwiti preifat wedi'u targedu, gan ofyn pam ddim.
- Dywedodd y Swyddogion eu bod yn fuddsoddiadau hirdymor, roedd contractau'n cael eu llofnodi i ymrwymo swm penodol o arian, ond nid oes yn rhaid i hyn gael ei leoli'n syth bin; caiff ei ddefnyddio pan a phryd y bydd angen gan reolwyr a chwmnïau eraill. Gwnaeth swyddogion egluro ymhellach nad yw'r manteision llawn yn cael eu gweld gyda buddsoddiadau ecwiti preifat nes y diwedd pan fydd y cyllid yn cael ei glirio, mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd gosod targedau yn eu herbyn, fodd bynnag mae rheolwyr cyllid yn cyhoeddi adroddiadau perfformiad chwarterol.

PENDERFYNWYD:

i. Cymeradwyo'r ISS ar gyfer 2017-18 fel ag y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

ii. Cymeradwyo cyhoeddiad yr ISS ar wefan y Cyngor erbyn 1 Ebrill 2017.

The meeting terminated at Time Not Specified

***This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.***